

Rhif: WG45843



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen ymgynghori

Rheolau Safonau Gweithredol

Dyddiad cyhoeddi: 26 Medi 2022
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 21 Tachwedd 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGGL © Hawlfraith y Goron

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn am y Rheolau Safonau Gweithredol arfaethedig ar gyfer cyrff rheoli adeiladu dan Ddeddf Adeiladu 1984

Sut i ymateb

Gallwch anfon eich ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad drwy ebost i:
enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Os byddwch yn ymateb yn ysgrifenedig, dylech nodi'n glir eich bod yn ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch:

"Rheolau Safonau Gweithredol."

Dylai ymatebion ysgrifenedig gael eu hanfon i'r cyfeiriad canlynol:

Rheolau Safonau Gweithredol
Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Pan fyddwch yn ymateb, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn cadarnhau a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad, a phe baech yn cynnwys:

- eich enw,
- eich swydd (os yn berthnasol),
- enw'r sefydliad (os yn berthnasol),
- cyfeiriad (gan gynnwys cod post),
- cyfeiriad ebost, a
- rhif ffôn cyswllt.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cysylltu

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad, mae croeso i chi gysylltu â thîm Rheoliadau Adeiladu Llywodraeth Cymru drwy anfon ebost i: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth:
Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 062 8144

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi yn rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Ebost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Deddf Diogelwch Adeiladau 2022	5
Cynigion	5
Y Rheolau Safonau Gweithredol	6
Defnydd	6
Cynnwys	6
Dangosyddion perfformiad allweddol	7
Cyd-destun strategol	7
Rheolau ymddygiad proffesiynol a chod ymddygiad	7
Camau nesaf	8

Cyflwyniad

Deddf Diogelwch Adeiladau 2022

1. Mae Deddf Adeiladu 1984 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("Deddf 2022") yn cynnwys darpariaethau i wella lefelau cymhwysedd ac atebolrwydd yn y sector rheoli adeiladu, drwy greu strwythur proffesiynol a rheoleiddiol newydd ar gyfer rheoli adeiladu.
2. Er mwyn gwneud hynny, bydd Gweinidogion Cymru yn sefydlu ac yn cynnal cofrestr o gymeradwywyr rheoli adeiladu (boed yn sefydliadau neu'n unigolion). Caiff y newidiadau hyn a gyflwynir drwy Ddeddf 2022 eu hadlewyrchu mewn teitlau newydd ar gyfer unigolion a sefydliadau. Bydd angen i unigolion a sefydliadau a elwir ar hyn o bryd yn 'Arolygwyr Cymeradwy', sy'n dymuno parhau i gyflawni gwaith rheoli adeiladu, gofrestru fel 'cymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig'.
3. Bydd angen i'r sawl sy'n cyflawni gwaith fodloni cyfres ofynnol o safonau. Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i:
 - bennu Rheolau Safonau Gweithredol sy'n diffinio'r safonau perfformiad gofynnol y mae'n rhaid i gyrff rheoli adeiladu, boed yn awdurdodau lleol neu'n gymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig, eu bodloni.
4. Dan y Ddeddf, gall Gweinidogion Cymru ddirprwyo corff arall i gyflawni rhai o'u swyddogaethau. Mae ganddynt systemau eraill hefyd i alluogi corff i weithredu ar eu rhan. Yn y papur ymgynghori hwn, dylid cymryd bod Gweinidogion Cymru yn cyfeirio at Weinidogion Cymru neu rywun sy'n cyflawni'r swyddogaeth ar eu rhan.

Cynigion

5. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys pum dogfen, sef:
 - y ddogfen ymgynghori hon, sy'n darparu cyflwyniad i bob dogfen;
 - y Rheolau Safonau Gweithredol, sy'n darparu'r safonau y mae angen i gyrff rheoli adeiladu eu bodloni;
 - Atodiad A y Rheolau Safonau Gweithredol – Trefniadau monitro, gan gynnwys data adroddadwy a dangosyddion perfformiad allweddol, sy'n ategu'r Rheolau Safonau Gweithredol;
 - Atodiad B y Rheolau Safonau Gweithredol – cyd-destun strategol goruchwyliaeth ar gyfer rheoli adeiladu, sy'n ategu'r Rheolau Safonau Gweithredol;
 - ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, sy'n darparu cwestiynau'r ymgynghoriad.
6. Ar hyn o bryd, caiff Arolygwyr Cymeradwy (a fydd yn dod yn gymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig) eu cofrestru gan Gofrestr Arolygwyr Cymeradwy Cyngor y Diwydiant Adeiladu (CICAIR). Mae CICAIR wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU i gyflawni'r rôl hon ar eu rhan.

7. Rydym yn ymwybodol bod Arolygwyr Cymeradwy yn gweithredu ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr a bod y drefn gofrestru gan CICAIR ar gyfer y ddwy weinyddiaeth yn darparu cysondeb ac yn hwyluso cofrestru ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy sy'n gweithio yn y ddwy weinyddiaeth. Wrth i ni symud i'r system newydd, mae gennym ddiddordeb mewn clywed am unrhyw broblemau a allai ddeillio o wahaniaethau rhwng y safonau yn y gweinyddiaethau.
8. Mae cwestiynau 1 a 2 yn ymdrin â hynny.

Y Rheolau Safonau Gweithredol

9. Caiff y Rheolau Safonau Gweithredol a'u gofynion eu hesbonio gan adran 58Z y Ddeddf. Mae'r adran 58Z newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio Rheolau Safonau Gweithredol ar gyfer cyrff rheoli adeiladu. Yna, rhaid i gyrff rheoli adeiladu gydymffurfio â'r rheolau wrth gyflawni eu swyddogaethau rheoli adeiladu.
10. Gydag amser, mae'n bosibl y bydd newidiadau yn y diwydiant yn golygu y bydd angen i'r Rheolau Safonau Gweithredol gael eu diwygio er mwyn adlewyrchu gofynion arfer gorau. Mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn diwygio'r Rheolau Safonau Gweithredol, a bydd yn rhaid iddynt gyhoeddi'r rheolau diwygiedig er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau'n hygyrch.

Defnydd

11. Mae'r Rheolau Safonau Gweithredol yn berthnasol i bob swyddogaeth rheoli adeiladu a gyflawnir yng nghyswllt adeiladau neu waith yng Nghymru. Caiff y swyddogaethau hynny eu cyflawni gan gyrff rheoli adeiladu, sef:
 - awdurdodau lleol yng nghyswllt adeiladau sydd 'y tu mewn i'r cwmpas' ac sydd 'y tu allan i'r cwmpas';
 - cymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig yng nghyswllt adeiladau sydd 'y tu allan i'r cwmpas'.
12. Bydd adeiladau sydd 'y tu mewn i'r cwmpas' yn cael eu diffinio dan adran 120I y Ddeddf a byddant yn rhwym wrth drefn fwy llym ar gyfer rheoli adeiladu. Mae defnyddio safonau cyffredin yn sicrhau dull cyson o ymdrin â rheoli adeiladu ar draws yr amgylchedd adeiledig yn ei gyfanrwydd.
13. Bydd Gweinidogion Cymru yn monitro perfformiad cyrff rheoli adeiladu ar sail y Rheolau Safonau Gweithredol hyn a gallent ddwyn achos yn erbyn y sawl sy'n methu, neu a allai fethu, â bodloni'r gofynion.

Cynnwys

14. Mae'r Rheolau Safonau Gweithredol yn cynnwys:
 - yr arferion a'r safonau a ddisgwyllir;
 - y trefniadau monitro, gan gynnwys data adroddadwy a dangosyddion perfformiad allweddol – gweler Atodiad A;
 - cyd-destun strategol goruchwyliaeth ar gyfer rheoli adeiladu, sy'n ategu'r Rheolau Safonau Gweithredol – gweler Atodiad B.

15. Caiff y Rheolau Safonau Gweithredol eu hategu gan gyfres o atodiadau, ac mae'r rhain yn rhan annatod o'r darpariaethau i wella lefelau cymhwysedd ac atebolrwydd. Bydd yr atodiadau'n eich helpu i ddeall beth sy'n ofynnol.
16. Mae'r Rheolau Safonau Gweithredol wedi'u drafftio fel eu bod yn ymdrin â'r ystod lawn o gyrff rheoli adeiladu, o unigolion i sefydliadau cymhleth mawr. Felly, dylid eu darllen yng nghyd-destun amgylchiadau unigol, ee bydd camau gorfodi'n golygu rhywbeth gwahanol i awdurdodau lleol a chymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig.
17. Mae cwestiynau 3 i 10 yn ymdrin â'r Rheolau Safonau Gweithredol.

Dangosyddion perfformiad allweddol

18. Caiff y Rheolau Safonau Gweithredol eu hategu gan Atodiad A sy'n rhestru'r data adroddadwy a'r dangosyddion perfformiad allweddol y mae'n rhaid i gorff rheoli adeiladu eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.
19. Dyma brif ddull Gweinidogion Cymru o fesur agweddau ar berfformiad. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth allweddol ar gyfer cyrff rheoli adeiladu er mwyn ei gwneud yn bosibl iddynt gynnal eu hadolygiadau eu hunain o berfformiad a chyflwyno eu rhaglenni a'u camau eu hunain ar gyfer gwella.
20. Hoffem gael barn cyrff rheoli adeiladu am gynnwys y fersiwn drafft o'r data adroddadwy a'r dangosyddion perfformiad allweddol er mwyn deall eu gallu i gasglu'r math hwn o ddata a'i gyflwyno i'r corff rheoleiddio. Bydd y farn honno'n helpu i ddatblygu, mireinio a threfnu'r gwaith hwn yn ddangosyddion perfformiad allweddol mesuradwy sy'n ategu'r gwaith o fonitro diogelwch adeiladau drwy waith rheoli adeiladu.
21. Mae cwestiynau 11 i 23 yn ymdrin â'r dangosyddion perfformiad allweddol.

Cyd-destun strategol

22. Mae Atodiad B yn gosod y cyd-destun strategol i'r strwythur proffesiynol a rheoleiddiol newydd ar gyfer rheoli adeiladu. Mae'r fframwaith hwn yn dangos y cysylltiad rhwng cymhwysedd y proffesiwn rheoli adeiladu unedig a goruchwyliaeth ar gyfer rheoli adeiladu.
23. Mae cwestiynau 24 i 25 yn ymdrin â'r cyd-destun strategol.

Rheolau ymddygiad proffesiynol a chod ymddygiad

24. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn paratoi ac yn cyhoeddi rheolau ymddygiad proffesiynol sy'n berthnasol i gymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig. Ceir cyfeiriadau at y rheolau hynny yn y Rheolau Safonau Gweithredol. Ymgynghorir ar wahân ynghylch y safonau hynny ac mae'n bosibl y byddwch am aros am yr ymgynghoriad hwnnw i ddarparu adborth penodol ynghylch y rheolau ymddygiad proffesiynol.

Camau nesaf

25. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 21 Tachwedd 2022. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu dadansoddi a bydd ymateb gan Lywodraeth Cymru yn dilyn.